Comisiwn y Cynulliad
Assembly Commission

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**AC(4)2011(5) Papur 4 rhan 1**

**Dyddiad:** 20 Hydref 2011
**Amser:** 13:00-15:00
**Lleoliad:** Swyddfa'r Llywydd
**Enw a rhif ffôn yr awdur:** Lynne Flux, est 8495

# Cymorth i Aelodau'r Cynulliad: Creu Cronfa Fynediad

**Diben a chrynodeb**

1.1 Mae perygl y gallai'r trefniadau ariannu presennol i gynorthwyo'r Cynulliad ac Aelodau'r Cynulliad i gydymffurfio â'u dyletswyddau cydraddoldeb, fethu diwallu anghenion a gofynion cyfnewidiol Deddf Cydraddoldeb 2010.

1.2 Mae'r papur hwn yn cynnig y dylid creu Cronfa Fynediad ganolog a fydd yn caniatáu i'r Aelodau ddefnyddio'r adnoddau angenrheidiol i:

- ddarparu ar gyfer gofynion ychwanegol Aelodau anabl;
- caniatáu i'r holl Aelodau ymwneud ag etholwyr sydd ag anghenion amrywiol heb unrhyw rwystr ariannol (lle bo hynny'n ymarferol);
- lleihau'r risg o gymryd neu o beidio â chymryd camau a allai fynd yn groes i Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

1.3 Byddai'r Gronfa ar wahân i ddarpariaethau Pennod 9 o'r Penderfyniad ynghylch Cydraddoldeb a Mynediad.

1.4 Byddai'r Gronfa Fynediad yn ymwneud yn uniongyrchol â nodau strategol Comisiwn y Cynulliad, sef darparu cymorth seneddol rhagorol ac ennyn diddordeb pobl Cymru.

**2.0 Argymhellion**

2.1 Gofynnir i'r Comisiwn gytuno i:

- greu Cronfa Fynediad i helpu'r Aelodau i gyflawni'u hymrwymiadau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;

- diweddaru Arweiniad y Grŵp Trawsbleidiol er mwyn cynnwys manylion am y Gronfa Fynediad;

- cyfeirio'r papur hwn at y Bwrdd Taliadau, a phenderfyniad y Comisiwn ynghylch y Gronfa Fynediad, er gwybodaeth wrth iddynt ystyried newidiadau yn y Penderfyniad ynghyd Tâl a Lwfansau'r Aelodau yn y dyfodol.

**3.0 Ymgynghori**

3.1 Cynhaliwyd dau ymgynghoriad fel rhan o'r gwaith hwn ac wrth ddod i'r casgliadau a nodir yn y papur hwn:

- Cynhaliodd y tîm Cydraddoldebau archwiliad o effaith y Penderfyniad ar Gydraddoldeb ym mis Chwefror 2011. Casglwyd sylwadau gan yr Aelodau fel rhan o'r broses hon;

- Yn rhinwedd ei swydd fel Comisiynydd y Cynulliad sydd â chyfrifoldeb dros gydraddoldeb, cysylltodd Sandy Mewies AC â'r holl Aelodau ym mis Awst a mis Medi 2011, i ofyn am dystiolaeth a sylwadau am y modd y gallai'r Comisiwn roi mwy o gymorth i'r Aelodau ymgymryd â'u dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae crynodeb o'r sylwadau a gafwyd yn Atodiad A.

**4.0 Trafodaeth**

4.1 Yn ystod y misoedd diwethaf, mae rhai o'r Aelodau wedi anfon sylwadau at y tîm Cydraddoldebau yng nghyswllt materion a chostau'n ymwneud â darparu gwasanaethau hygyrch i etholwyr sydd ag anghenion amrywiol. Mae'r problemau sydd wedi codi'n ymwneud â thalu am wasanaethau cyfieithu a darparu cyfarpar arbenigol.

4.2 Wrth ystyried yr angen i sefydlu Cronfa o'r fath, mae'r tîm Cydraddoldebau wedi adolygu'r trefniadau yn yr Alban, ac wedi asesu'r effaith ariannol posibl ar gyllideb y Comisiwn a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hyn. Amcangyfrifir y bydd angen cyllideb o £10,000 y flwyddyn ar sail y gofynion a nodwyd.

**5.0 Cynorthwyo'r Aelodau i wasanaethu'u hetholwyr**

5.1 Mae'r Comisiwn, fel cyflogwr a darparwr gwasanaethau, yn ddarostyngedig i ofynion dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn Neddf Cydraddoldeb 2010, a rhaid iddo roi sylw dyledus i:

- ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erlid anghyfreithlon;
- hyrwyddo cyfleoedd cyfartal rhwng gwahanol grwpiau;
- meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau.

5.2 Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb hefyd yn cydnabod yn glir y gall anghenion pobl anabl fod yn wahanol i anghenion pobl heb anabledd. Dylai cyrff cyhoeddus, felly, ystyried anghenion pobl anabl wrth benderfynu ar bolisïau neu wasanaethau.

5.3 O dan y Ddeddf, dylai'r Comisiwn a'r Aelodau wneud addasiadau rhesymol angenrheidiol wrth ddarparu gwasanaeth i'w hetholwyr. Mae'n bosibl y bydd rhai o'r Aelodau'n cysylltu'n rheolaidd â chyfran uwch o etholwyr anabl mewn ardal boblog, neu'n ymwneud mwy â grwpiau y mae angen cymorth arnynt i gyfathrebu neu'n gwasanaethu etholwyr nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt. Oherwydd cost y cymorth ychwanegol hwn, gall costau'r Aelodau sy'n ei ddarparu fod yn llawer uwch na chostau Aelodau eraill.

5.4 Yn ôl y Penderfyniad presennol, mae'n rhaid i'r Aelodau ddefnyddio'u lwfans costau swyddfa i dalu am y costau hyn.  Mae costau cyfathrebu eraill, fel cyfieithu, hefyd yn cael eu talu o'u lwfans costau swyddfa. O'r sylwadau a gafwyd, ymddengys bod yr Aelodau'n pryderu am y gwahaniaeth yn yr effaith ariannol sy'n gysylltiedig â thalu am wasanaethau ychwanegol drwy ddefnyddio'r lwfans costau swyddfa. O ganlyniad, mae perygl i Aelodau beidio â chydymffurfio â'u dyletswyddau cyfreithiol tuag at grwpiau amrywiol sydd ag anghenion penodol. Codwyd y pwyntiau hyn yn ystod cwestiynau llafar i'r Comisiwn ar 5 Hydref 2011.

5.5 Mae Arweiniad y Llywydd ar Grwpiau Trawsbleidiol, a gynhyrchwyd yn yr Ail Gynulliad, yn nodi nad oes cyllideb gan y Cynulliad i dalu am gostau rhedeg Grwpiau Trawsbleidiol a bod yn rhaid i aelodau'r grwpiau hynny ysgwyddo unrhyw gostau perthnasol eu hunain. Fodd bynnag, mae un Grŵp Trawsbleidiol penodol wedi cael gwasanaeth cyfathrebu arbenigol yn y gorffennol i ganiatáu i'r rhai sy'n drwm eu clyw gymryd rhan. Mae hyn yn gymhelliant arall i sefydlu cyllideb fwy agored a ffurfiol i ariannu anghenion o'r fath.

5.6 Mae'r Grŵp Trawsbleidiol ar faterion byddardod yn enghraifft dda o'r angen i ddarparu gwasanaeth cyfathrebu er mwyn gwasanaethu etholwyr ag anghenion amrywiol, gan gynnwys pobl anabl. Yr

argymhelliad yn y papur hwn yw y dylid sicrhau bod arian ar gael at y diben hwn. Rhaid pwysleisio y byddai'r Gronfa Fynediad wedi'i chyfyngu i hybu mynediad ac ymgysylltiad yng nghyswllt Grwpiau Trawsbleidiol.

**6.0 Cylch gwaith – y Penderfyniad a materion mynediad**

6.1 Mae adran 9 o'r Penderfyniad ar Dâl a Lwfansau'r Aelodau eisoes yn delio â rhai materion yn ymwneud â mynediad. Ni fyddai penderfyniad i greu Cronfa Fynediad yn effeithio ar y meysydd hyn:

- addasiadau a newidiadau i swyddfa etholaethol neu ranbarthol Aelod yn unol ag adran 9.2 o'r Penderfyniad. Yn ôl yr adran hon, mae'n rhaid i'r Aelodau dalu'r £1,000 cyntaf o'u Lwfans Costau Swyddfa;

- mae adran 9.3 yn delio â chymorth i staff cymorth anabl, ac ni fyddai hyn yn cael ei gynnwys yn y Gronfa Fynediad arfaethedig. Mae'r Penderfyniad yn nodi bod angen defnyddio'r Lwfans Costau Swyddfa neu'r Lwfans Cymorth i Grwpiau, fel y bo'n briodol, i dalu am y costau hyn.

6.2 Bydd y Tîm Cydraddoldebau'n cynnig arweiniad clir i'r Aelodau ynghylch yr hyn sy'n rhesymol ac yn gymesur i sicrhau eu bod yn parhau i ddarparu gwasanaethau hygyrch a chyfleusterau addas i'w staff. Gellir defnyddio ffynonellau allanol hefyd i dalu am gyfarpar arbenigol, fel cynllun Mynediad i Waith Llywodraeth y DU, a bydd y tîm Cydraddoldebau'n cyfeirio'r Aelodau at hyn hefyd.

6.3 Mae adran 9.4 o'r Penderfyniad yn nodi y "caiff" Aelod ddefnyddio'i Lwfans Costau Swyddfa i ddarparu gwasanaeth hygyrch i etholwr. Dyma lle mae'r Aelodau yn wynebu problemau o ran cost ac mae'n rhoi hyblygrwydd i'r Comisiwn dalu am y cyfarpar a'r gwasanaethau cyfathrebu sydd eu hangen ar yr Aelodau er mwyn ymwneud â'u hetholwyr a grwpiau a chanddynt anghenion amrywiol.

**7.0 Asesu risg**

7.1 Y prif risg sydd ynghlwm wrth beidio â chreu Cronfa Fynediad yw y bydd rhai Aelodau'n methu cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Er enghraifft:

- mae'n bosibl na fydd Aelodau anabl yn cael digon o gymorth i ganiatáu iddynt ymgymryd â'u swyddi;

- mae'n bosibl na fydd Aelodau'n gallu gwneud addasiadau rhesymol na chyfathrebu'n effeithiol ag etholwyr amrywiol; neu
- mae'n bosibl y caiff Aelodau eu rhwystro rhag ymwneud yn llawn ag etholwyr amrywiol oherwydd yr effaith ar eu Lwfans Costau Swyddfa.

7.2 Mae'n debygol y byddai enw da'r Cynulliad mewn perygl pe bai'n ymddangos nad yw unigolion neu grwpiau a chanddynt anghenion amrywiol yn cael yr un cyfle i gyfathrebu ag Aelodau neu â fforymau busnes y Cynulliad.

7.3 Os caiff Cronfa ei chreu, mae perygl na fyddai'n gallu diwallu'r anghenion y bwriadwyd iddi eu diwallu, gan ei bod yn anodd rhagweld union faint y galw. Mae gan y Comisiwn gronfa wrth gefn y gellid ei defnyddio pe bai hyn yn digwydd.

## 8.0 Cwmpas y Gronfa Fynediad a'i gweithredu

8.1 Mae gan Gorff Corfforaethol Senedd yr Alban gyllideb benodedig i helpu Aelodau anabl y Senedd ac i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer etholwyr anabl. Mae cymorth ar gael ar gyfer cyfathrebu drwy wneud cais am Dreuliau Ychwanegol. Anfonir ceisiadau am arian o'r gronfa, a chânt eu cymeradwyo, ymlaen llaw. I roi darlun o'r galw sydd am y ddarpariaeth, cymeradwywyd yr 11 cais a ddaeth i law yn ystod blwyddyn ariannol 2009-10, a hynny am £1,122 at ei gilydd. Yn ystod blwyddyn ariannol 2010-11, cymeradwywyd y tri chais a ddaeth i law, a hynny am £158 at ei gilydd. Byddai'r Gronfa Fynediad arfaethedig i'r Cynulliad yn cynnwys y ddwy elfen hon mewn un linell wariant.

8.2 Ar ôl ystyried effaith y Penderfyniad ar gydraddoldeb, ac ystyried y sylwadau a gafwyd gan yr Aelodau yn ystod y ddau ymgynghoriad, nododd y tîm Cydraddoldebau y math o gostau y gallai Cronfa Fynediad ganolog dalu amdanynt i helpu'r Aelodau i ymgymryd â'u cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Bydd y cynnig yn cynnwys y costau a ganlyn o fewn y Gronfa Fynediad :

- cymorth i gyfathrebu mewn cyfarfodydd rhwng Aelodau ac etholwyr amrywiol, gan gynnwys gwasanaethau cyfieithu ar gyfer grwpiau trawsbleidiol a digwyddiadau sy'n cael eu harwain gan Aelodau. Ystyr 'cymorth i gyfathrebu' yw cyfieithu i ieithoedd eraill, gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain a defnyddio palandeipwyr a phobl sy'n darllen gwefusau;

- darparu gwybodaeth mewn gwahanol fformatau (h.y. Braille, testun Hawdd ei Ddarllen);

- prynu a chynnal a chadw cyfarpar arbenigol i Aelodau anabl fel ffon destun, offer cyfrifiaduron neu cyfarparr arbenigol arall.

8.3 Dylid pwysleisio mai diben y Gronfa Fynediad fyddai helpu Aelodau sydd â gofynion mynediad penodol, yn hytrach na bod yn rhan o lwfansau'r Aelodau. Byddai'r Gronfa'n cael ei gweithredu gan y tîm Cymorth Busnes i Aelodau, mewn ymgynghoriad â'r tîm Cydraddoldebau. Byddai cyfres o egwyddorion yn cael ei sefydlu i asesu ceisiadau am arian o'r Gronfa.

8.4 I gael arian o'r Gronfa, byddai angen i'r Aelodau wneud cais am gymeradwyaeth ymlaen llaw i'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau. Proses syml fyddai hon o sicrhau bod y cais yn 'rhesymol' ac i gadw llygad ar y patrymau o ran angen a gwariant.  Yna byddai'r Aelodau yn archebu'r gwasanaeth neu'r cyfarpar angenrheidiol ac yn anfon yr anfoneb i'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau ei thalu. Byddai canllawiau a gweithdrefnau manwl yn cael eu cynhyrchuu ar gyfer yr Aelodau.

## 9.0 Casgliad ac argymhellion

9.1 Mae'r dyletswyddau a osodwyd ar Cynulliad gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ac asesiad y tîm Cydraddoldebau o'r dyletswyddau hyn, ynghyd â'r pwysau ymarferol ac ariannol a ddaeth i'r amlwg yn sylwadau'r Aelodau pan ymgynghorwyd â nhw, wedi arwain y Cynulliad i ddod i'r casgliad y dylai'r Cynulliad roi rhagor o gymorth i Aelodau anabl ac i Aelodau sydd am ymwneud ag etholwyr sydd ag anghenion amrywiol, naill ai'n unigol neu mewn grwpiau. Cynigir y dylid delio â'r broblem hon drwy sefydlu Cronfa Fynediad, i'w gweinyddu gan y tîm Cymorth Busnes i Aelodau, gyda chymorth y tîm Cydraddoldebau, i dalu'r costau sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaethau ychwanegol hyn.